Ydych chi angen cylchlythyr?

Mae yna sawl cwestiwn y dylech ystyried cyn penderfynu cynhyrchu cylchlythyr.

- Beth yw'r pwrpas a'r gôl? Pa wybodaeth ydych ei angen i gyfleu i, neu am, eich mudiad?
- Oes gennych gynulleidfa ddigon mawr i gyfiawnhau costau printio?
- Allech chi baratoi a dosbarthu'r cylchlythyr yn electronig?
- Oes yna ddigon o wybodaeth ddiddorol i'w roi i'r darllenwr?
- Sut fydd hyn yn cydweddu gyda chyfathrebiad arall y mudiad?

Dylai atebion i'r cwestiynau yma bennu a chyfiawnhau amlder a phwrpas eich cylchlythyr. Er enghraifft, efallai mai'ch gôl yw ehangu eich aelodaeth, hyrwyddo a marchnata eich cynllun cludiant cymunedol, neu roi gwybodaeth i fudiadau am faterion anabledd ac ati.

Beth sy'n gwneud cylchlythyr da?

Mae yna ddau brif faes gwybodaeth sy'n gwneud cylchlythyr da.

- **Diddordeb cyffredin**
  Mae cylchlythyrau yn gweithio orau pan fod pwrpas unigol syml yn seiliedig ar ddiddordeb cyffredin rhwng y darllenwr a'r cylchlythyr.

- **Newyddion cyfredol a gwybodaeth destunol**
  Mae'r cylchlythyrau gorau yn cyfleu materion brys. Mae'r cynnwys yn sôn am yr wythnosau blaenorol neu ddyfodol. Bydd eich gwybodaeth gyfredol yn pennu pa mor aml y bydd angen i chi gynhyrchu'r cylchlythyrau.

Sut i gynllunio'r cylchlythyr?

Unwaith y penderfynwch fod angen i chi gyfathrebu, rhaid i chi benderfynu sut i gyfleu'r wybodaeth. Fel arfer, print a ddefnyddir ar gyfer cylchlythyrau, ond efallai bydd e-bost yn fwy addas i'ch anghenion. Gallwch hefyd ystyried radio lleol neu golofn mewn papur newydd.

Os ddewiswch brintio i gyfathrebu â'ch darllenwyr, fyddwch chi'n cynhyrchu'n fewnol neu a fyddwch yn mynd at argraffwyr allanol? Bydd hwn yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Os mai mewnol yw, gall y costau gynnwys: amser i goladu, ysgrifennu a chynhyrchu, unrhyw hyfforddiant, meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith, papur a phrintio. Gall costau eraill gynnwys: plygu, mewnosod, labelu a phostio. Effeithir hefyd ar eich costau gan amlder eich cylchlythyr.

Enwebwch olygydd a fydd yn gyfrifol am arddull a chynnwys, dyddiadau cau, unrhyw themâu ac ati. Mae'n werth meddwl am ba ffurf-deip a maint y defnyddir. Dylid adnabod pob cylchlythyr drwy ei osodiad, argraffwaith a defnydd graffeg. Dylid rhoi sylw i'r gofod rhwng llinellau a ffiniau - dyma'r math o bethau sy'n gwneud gwybodaeth a deipiwyd yn hawdd neu'n anodd ei ddarllen.

Pwy yw eich cynulleidfa?

Rhaid i chi benderfynu pwy fydd eich cynulleidfa. Dylai'r cylchlythyr gael cynulleidfa darged benodol mewn golwg. Bydd hyn yn help i ddiffinio arddull a chynnwys y cylchlythyr, i'w wneud yn llawer mwy effeithiol.

Arddull ysgrifennu

Mae gan gylchlythyrau oes silff fer, ac edrychir arnynt am gyfnodau amser byr. Mae'r cylchlythyr efallai yn cystadlu â swyddfa swnllyd neu fywyd cartref a gwrthdynnu parhaus; felly nid yw erthyglau llawn geiriau a jargon yn ffordd gyflym o gyfleu negeseuon. Dylai'r ysgrifennu fod yn anffurfiol, yn llawn gwybodaeth ac yn syml. Dylai adlewyrchu'r iaith lafar fwyaf naturiol.

- byddwch yn fyr a syml
- byddwch yn benodol
- defnyddiwch restrau a phwyntiau bwled
- defnyddiwch iaith gyfarwydd
- edrychwch am eiriau dianghenraid

Beth yw newyddion?

Gall newyddion fod yn ddigwyddiadau, datblygiadau, penderfyniadau sy'n effeithio ar y darllenwr, penderfyniadau cyfarfodydd, penderfyniadau polisïau newydd, newidiadau strategaeth llywodraethol, llwyddiant ariannu neu gynnydd ymgyrchoedd. Os ydych yn ysgrifennu erthygl cofiwch fod angen y canlynol: Pwy, Beth, Pam, Pryd a Ble. Defnyddiwch benawdau i ddal sylw'r darllenwr a'i annog i ddarllen mwy. Ceisiwch gael dyfyniadau gan y bobl y soniwch amdanynt, er mwyn bywiogi'r erthygl.

Wedi ei ddiweddaru:25/08/2011

Beth arall allwch gynnwys mewn cylchlythyr?

Dyma rai posibiliadau: colofnau rheolaidd, darnau barn, cyfweliadau, holi ac ateb a dyddiaduron. Os yw'ch cyllid yn caniatáu, mae delweddau yn ffordd i ddenu sylw'r darllenwr, yn creu ffurf weledol gwell a gwerthu'r stori. Fodd bynnag, mae'n werth talu sylw at ansawdd y delweddau a sut ellir eu hatgynhyrchu wrth eu hargraffu. Hefyd, cofiwch ddefnyddio penawdau gyda'r llun fel bod pobl yn sicr beth a welant.

Cylchlythyrau electronig

Os ydych yn dewis cylchlythyr electronig cofiwch y pwyntiau canlynol i'w wneud yn fwy deniadol:
Cadwch yn berthnasol - defnyddiwch e i ddweud wrth bobl am bethau sy'n eu diddori.

Denwch sylw gyda'r llinell testun - bydd llawer o bobl yn dewis darllen ai peidio drwy weld y llinell testun yn y mewnflwch. Gwnewch yn siŵr fod y llinell testun yn berthnasol i'r neges.

Ewch yn syth at y pwynt - peidiwch gwastraffu amser pobl gyda storïau hir - defnyddiwch iaith gryno, daliwch eu diddordeb a'u hannog i glicio ar gyswllt i'ch gwefan i ddarganfod mwy.

Defnyddiwch iaith syml - ysgrifennwch yn syml ac yn glir fel bod y darllenwyr yn deall yn syth beth rydych yn ei gynnig, a'r lles iddynt hwy.

Mynnwch fod yr amlder yn iawn - anfonwch gylchlythyron pan fod gennych rywbeth perthnasol a diddorol i'w ddweud yn unig.

Gwybodaeth bellach

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

VolResource – gwybodaeth ar gyfer mudiadau gwirfoddol
www.volresource.org.uk

Directory of Social Change - for *The DIY Guide to Charity Newsletters*
Ffôn: 08450 777 707
www.dsc.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:25/08/2011

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk